

# Canolfan Stagbwll a Fferm Gupton, Sir Benfro



Ymddiriedolaeth  
Genedlaethol  
National Trust



**Canolfan eco gwobrwyol ar Stad Stagbwll a gwersyll  
gwyRDD yn Freshwater West:**

- Lleoliad delfrydol ger y môr a chefn gwlad
- Llety fforddiadwy ar gyfer grwpiau mawr a bach
- Delfrydol ar gyfer gwyliau ac anturiaethau awyr agored

## Lleoliad, lleoliad, lleoliad

Mae ein stad o 2,000 o erwau yn ne Sir Benfro yn berffaith ar gyfer chwilota a darganfod! Gyda'i draethau gwobrwyol, coedwigoedd tawel a milltiroedd o lwybrau arfordirol, mae'n anodd peidio cael eich ysbrydoli gan Stagbwll.



Mae gyda ni rywbeth ar eich cyfer p'un ai gwyllo bywyd gwyllt yn y warchodfa natur genedlaethol sy'n mynd â'ch bryd chi, neu gerdded ein rhwydwaith o lwybrau, neu fynd amdani ar gefn beic mynydd neu chwilio am ddifyrrwch yn y tonnau.

Am hanes ac etifeddiaeth, ewch i weld llynnoedd eiconig Bosherton, a grëwyd gan deulu Cawdor yn y 18ed ganrif fel rhan o'u tirwedd lluniedig. Neu, os y'ch chi am wneud y gorau o'r arfordir, mae Bae Barafundle a De Broad Haven yn ddefnyddiol ar gyfer anturiaethau tywodlyd.



## A wyddech chi?

Mae pob ymweliad yn ein helpu i warchod Stad Stagbwll fel y gall y cenedlaethau i ddod ei mwynhau. Mae eich cefnogaeth – trwy barcio'r car, dod yn aelod, archebu llety neu aros am baned yn yr ystafell de – yn ein galluogi i barhau â'n gwaith cadwraeth hanfodol yma. Diolch.



## Y man cychwyn gorau oll

Mae Canolfan Stagbwll yn ganolog i'r stad hanesyddol sy'n golygu taw dyma'r man cychwyn gorau oll ar gyfer darganfod y lle arbennig hwn, boed hynny trwy deithiau tywys neu anturiaethau ar eich liwt eich hun.



Mwynhewch gyda'n rhaglen o weithgareddau tywys; dewiswch o blith caiacio ac arfordiro, gwyllt-grefft a cherdded gyda'r ceidwad. Ry'ch chi mewn dwylo diogel hefyd; mae gan y ganolfan Drwydded Gweithgareddau Antur, ac mae'r holl sesiynau yn cael eu rhedeg gan staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a gweithredwyr lleol trwyddedig.



Pan na fyddwch yn darganfod byd yr awyr agored, mae lle dan do braf yma hefyd. Crwydrwch yn y siop, mynnwch sgwrs â'r tîm yn y dderbynfa, mwynhewch ddiod yn y bar ac ail-gysylltwch gyda Wi-Fi am ddim. Mae gyda ni theatr a chyfleusterau ystafell gyfarfod ar y safle hefyd.

Os am damaid i fwyta, mae Ystafell de y Tŷ Cychod wrth law neu mae gan ein tîm arlwygo mewnol ddewis o fwydydd i blesio chwaeth pawb.

## Beth mwy sydd ei angen?!



## Croeso cynnes

Grwpiau mawr, grwpiau bach, hoe dilyn diddordeb penodol, cael y teulu ynghyd neu wyliau antur...beth bynnag yw eich rheswm dros aros, fe gewch groeso cynnes gyda ni yma! Gall ein canolfan eco gysgu hyd at 147 mewn cyfuniad o lofftydd sengl, dwbl a gwelyau bync.

Cysylltwch â'r tîm ar 01646 623110 neu [stackpole.bookings@nationaltrust.org.uk](mailto:stackpole.bookings@nationaltrust.org.uk) am fwy o wybodaeth am aros yn ein tai fel grŵp neu am logi'r safle cyfan.

### Tŷ Glas y Dorlan

- Cysgu 44 mewn 10 llofft
- Cegin fasnachol
- Ystafell fwyta gyda man gweini
- Ystafell gyffredin
- Ystafell sychu
- Maes chwarae
- Ardal chwarae preifat a diogel ar borfa

### Tŷ Cydull

- Cysgu 35 mewn 12 llofft
- Cegin fasnachol
- Ystafell fwyta
- Ystafell chwaraeon
- Ystafell sychu
- Stôf tan coed
- Cwrt preifat



## Croeso cynnes

### Tŷ Alarch

- Cysgu 24 mewn 13 llofft en-suite
- Cegin fasnachol
- Ystafell fwyta
- Lolfa agored a chegin fach
- Gardd cwrt i'w rhannu

### Tŷ Palod

- Cysgu 17 mewn 7 llofft
- Cegin ac ystafell fwyta agored yn un
- Gerddi preifat
- Opsiwn i logi'r ystafell ddsbarth drws nesa

### Y Maenordy\*

- Cysgu 9 mewn 3 llofft
- Cegin ffermdy
- Lolfa fawr
- Ystafell fwyta
- Gerddi preifat a pharcio

### Bythynnod Rhosmari, Lafant a Teim\*

- Pob bwthyn yn cysgu 6 mewn 3 llofft
- Cegin fodern cynllun agored ac ys tafell fyw
- Gerddi yn y cefn

\*i'w archebu trwy [nationaltrust.org.uk/holidays](http://nationaltrust.org.uk/holidays)







## Mwy i'w ddarganfod

Anelwch yn bellach tua'r gorllewin ac ymhen tro byr yn y car fe ddowch o hyd i Freshwater West a Fferm Gupton; ein safle glan y môr sy'n rhan o stad ehangach Stagbwll. Yma, antur arfordirol sy'n denu a chysgu o dan y sêr yn ein gwerysll fferm.



Anelwch lawr i'r traeth am chwip o brofiadau chwaraeon dŵr; mae Freshwater West yn aml yn cael ei ystyried yn un o fannau syrffio gorau Cymru. Llogwch fwrdd neu archebwch wers gyda'r Outer Reef Surf School, ein darparydd gweithgaredd ar y safle.

Neu arhoswch ar y tywod a mwynhewch yr hwyl o hedfan barcud, chwilota yn y pyllau creigiog a glanhau'r traeth.

Mae Fferm Gupton daffiad carreg o'r traeth a dma'n canolfan ymwelwyr newydd yn Sir Benfro. Dilynwch gyfres o lwybrau cerdded, gwyliwch fyd o adar o'r guddfan ar y safle a dysgwch am hanes y fferm yn y ganolfan ddehongli.



## Cysgwch dan y sêr

Mae Fferm Gupton yn ddefnyddiol ar gyfer arhosiad mwy gwylt a gwledig. Mae digonedd o le a'r gwerysll yn cynnig gofod i hyd at 180 o bebyll a 5 fan wersylla, a'r ffermdy sydd wedi ei adfer yn braf yn cysgu hyd at 10.



Mae'r holl adnoddau sydd eu hangen arnoch ar y safle, o derbynfa ar y safle i adeilad cawodydd newydd sbon ac ardal barbeciw, sgubor tywydd gwlyb a WiFi am ddim.



Estynnwn groeso i grwpiau bach a mawr, gan gynnig llogi'r safle cyfan, arlwyo a threfnu gweithgareddau hefyd.

Mae tâl llain gweryslla yn dechrau o £10 y person, archebwch ar-lein neu gallwch siarad â'r tîm ar 01646 661460. Ffermdy ar gael ar gyfer defnydd llwyr, i'w archebu trwy [nationaltrust.org.uk/holidays](http://nationaltrust.org.uk/holidays)





## Cysylltwch â ni

Diddordeb mewn archebu gwyliau yng Nghanolfan Stagbwl neu Fferm Gupton? Byddem yn falch i glywed wrthoch chi.

### Canolfan Stagbwl

01646 623110 / [stackpole.bookings@nationaltrust.org.uk](mailto:stackpole.bookings@nationaltrust.org.uk)

### Fferm Gupton

01646 661640 / [guptonfarm@nationaltrust.org.uk](mailto:guptonfarm@nationaltrust.org.uk)

### Cadw bys ar y pŷls

[nationaltrust.org.uk/pembrokeshire](https://nationaltrust.org.uk/pembrokeshire)



/NTPembs



#NTPembs

©Ymddiriedolaeth Genedlaethol 2018. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn elusen gofrestrdedig, rhif 205846.

Lluniau: Arnhel de Serra, Ben Selway, Chris Lacey, Chris Price, Drew Buckley, Joe Cornish, John Millar, John Miller, Mike Alexander, Mike Henton, Owen Howells, Robert Morris. Crown Copyright (2018) Visit Wales.